Y Comisiwn Etholiadol

Llawlyfr y Cyfryngau

Etholiadau Senedd Ewrop

Mawrth 2014

Cynnwys

Ynglŷn â'r llawlyfr hwn 2

Cysylltiadau ac adnoddau cyfryngau 3

Trosolwg o etholiadau Senedd Ewrop 5

Amserlen etholiad Senedd Ewrop 6

Pwy yw pwy yn yr etholiadau? 7

Gwahaniaethau yng Ngogledd Iwerddon 10

Sefyll fel ymgeisydd 11

Ymgyrchu 13

Gwariant a rhoddion plaid 15

Gwariant a rhoddion ymgeiswyr unigol 18

Twyll etholiadol 20

Cofrestru i bleidleisio 23

Pleidleisio 26

Ymgyrch ymwybyddiaeth y cyhoedd y Comisiwn Etholiadol 30

Cyfrif y pleidleisiau 31

Ar ôl yr etholiad 34

Etholiadau lleol ac etholiadau maerol Lloegr 35

Atodiad A - Rhestr o etholiadau lleol ac etholiadau maerol 37

Atodiad B – Sampl o bapurau pleidleisio 41

Atodiad C – Rhestr o Swyddogion Canlyniadau Rhanbarthol. 42

Atodiad D - delweddau ymgyrch ymwybyddiaeth y cyhoedd 43

Ynglŷn â’r llawlyfr hwn

Mae'r llawlyfr hwn yn ymdrin ag etholiadau Senedd Ewrop.

Hefyd mae etholiadau rhaglenedig yn cael eu cynnal mewn 161 o awdurdodau lleol ledled Lloegr. Yn ogystal, mae etholiadau maerol i fod i’w cynnal yn Watford a 4 awdurdod yn Llundain Fwyaf. Ceir rhagor o wybodaeth am yr etholiadau hyn, gan gynnwys rhestr lawn o etholiadau lleol a maerol Lloegr yn **Atodiad A** yng nghefn y llawlyfr hwn.

Cysylltiadau ac adnoddau cyfryngau

Swyddfa'r wasg y Comisiwn Etholiadol

Karim Aziz – Uwch Swyddog Cysylltiadau Cyfryngau
020 7271 0704 neu kaziz@electoralcommission.org.uk

Rosemary Davenport – Uwch Swyddog Cyfryngau a Materion Cysylltiadau Cyhoeddus
020 7271 0704 neu rdavenport@electoralcommission.org.uk

Tu allan i oriau swyddfa: 07789 920 414
E-bost: press@electoralcommission.org.uk
Dilynwch ni ar Twitter yn www.twitter.com/ElectoralCommUK

Swyddfa Gogledd Iwerddon

Cahir Hughes - Uwch Swyddog Cyfathrebu
028 9089 4028 neu chughes@electoralcommission.org.uk

Swyddfa'r Alban

Sarah Mackie – Uwch Swyddog Cyfathrebu
0131 225 0204 neu smackie@electoralcommission.org.uk

Swyddfa Cymru

Rhydian Thomas – Dirprwy Bennaeth, Swyddfa Cymru
0292 034 6804 neu rthomas@electoralcommission.org.uk

Gwefannau

www.electoralcommission.org.uk

Ar ein gwefan mae adran benodol ar gyfer newyddiadurwyr sy'n cynnwys newyddion gan y Comisiwn. Mae'r wefan hefyd yn cynnwys ein sesiynau briffio i Dŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi ar faterion sy'n effeithio'n uniongyrchol ar bleidleiswyr. Hefyd mae rhan o'r wefan yn ymdrin â'n canllawiau ar gyfer ymgeiswyr, Swyddogion Canlyniadau Lleol a PAROs.

www.fymhleidlaisi.co.uk

Mae'r wefan hon yn rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd am sut i gofrestru a phleidleisio a'r ffurflenni y gallant eu hargraffu er mwyn cofrestru a gwneud cais i bleidleisio drwy'r post neu drwy ddirprwy. Mae'n cynnwys cyfleuster chwilio am god post i ganiatáu i bobl ganfod lle mae'r etholiadau yn cael eu

cynnal, a hefyd mae 'gorsaf bleidleisio ryngweithiol y gellir cerdded drwyddi' ar gael.

Lluniau

Mae gennym ddetholiad o luniau y gellir eu defnyddio gan y wasg, sydd ar gael ar ein safle Flickr:
www.flickr.com/photos/electoralcommissionuk/collections/

Trosolwg o etholiadau Senedd Ewrop

Ar 22 Mai 2014, bydd pleidleiswyr yn y DU yn pleidleisio dros ein cynrychiolwyr yn Senedd Ewrop. Mae 73 ASE i gael eu hethol i'r 12 rhanbarth etholiadol yn y DU.

Mae nifer seddau Senedd Ewrop yn y DU yn cael eu rhannu fel a ganlyn:

Rhanbarth etholiadol	Rhifau ASE fesul rhanbarth
Dwyrain Canolbarth Lloegr	5
Dwyrain Lloegr	7
Llundain	8
Gogledd-ddwyrain Lloegr	3
Gogledd-orllewin Lloegr	8
De Ddwyrain Lloegr	10
De-orllewin Lloegr	6
Gorllewin Canolbarth Lloegr	7
Swydd Efrog a'r Humber	6
Cymru	4
Yr Alban	6
Gogledd Iwerddon	3

Amserlen etholiad Senedd Ewrop

Digwyddiad	Dyddiad
Y diwrnod olaf ar gyfer cyhoeddi hysbysiad o etholiad.	Dydd Llun 14 Ebrill 2014.[1]
Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno papurau enwebu a rhestrau o ymgeiswyr pleidiau cofrestredig i'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol.	Erbyn 4pm ar Ddydd Mawrth 24 Ebrill 2014.
Dyddiad olaf ar gyfer tynnu enwebiadau yn ôl	Erbyn 4pm ar Ddydd Mawrth 24 Ebrill 2014.
Cyhoeddi datganiad o'r pleidiau ac ymgeiswyr unigol a enwebwyd	5pm ar Ddydd Mawrth 24 Ebrill 2014.[2]
Dyddiad cau ar gyfer cofrestru i bleidleisio yn yr etholiadau.	Dydd Mawrth 6 Mai 2014.
Dyddiad cau ar gyfer gwneud cais am bleidlais drwy'r post newydd neu i wneud newidiadau i bleidleisiau drwy'r post neu drwy ddirprwy sy'n bodoli eisoes.	5pm ar Ddydd Mercher 7 Mai 2014.
Dyddiad cau ar gyfer gwneud cais am bleidlais drwy ddirprwy (ac eithrio ceisiadau am ddirprwy brys)	5pm ar Ddydd Mercher 14 Mai
Diwrnod pleidleisio	Dydd Iau 22 Mai 2014
Dyddiad cau ar gyfer cyhoeddi papurau pleidleisio post amnewidiol	5pm ar Ddydd Iau 22 Mai 2014.
Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau dirprwy brys	5pm ar Ddydd Iau 22 Mai 2014.
Dilysu a chyfrif y papurau pleidleisio.	Cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl cau'r bleidlais.
Cyhoeddi'r canlyniad	Dim cynharach na 9pm ar Ddydd Sul 25 Mai 2014.
Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ffurflenni gwariant ymgyrchu pleidiau gwleidyddol ac ymgyrchwyr nad ydynt yn rhai plaid (I'r rhai sy'n gwario £250k neu lai)	Dydd Gwener 22 Awst 2014
Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ffurflenni gwariant ymgyrchu pleidiau gwleidyddol ac ymgyrchwyr nad ydynt yn rhai plaid (i'r rhai sy'n gwario dros £250k)	Dydd Gwener 22 Tachwedd 2014.

[1] O ganlyniad i ŵyl y banc yn Gibraltar ar 1 Mai 2014, mae rhai terfynau amser yn rhanbarth etholiadol y De-orllewin yn wahanol i'r terfynau amser mewn rhannau eraill o Brydain Fawr. Gweler ein hamserlen lawn am y dyddiadau hyn.

[2] Os oes unrhyw wrthwynebiadau, gall y datganiad ynghylch y personau a enwebwyd gael ei gyhoeddi yn ddiweddarach, ond heb fod yn hwyrach na 4pm ar Ddydd Gwener, 25 Ebrill.

Pwy yw pwy yn yr tholiadau?

Y Comisiwn Etholiadol

Mae'r Comisiwn Etholiadol yn gorff annibynnol a sefydlwyd gan Senedd y DU. Rydym yn gosod safonau ar gyfer etholiadau a gynhelir yn dda ac yn rheoleiddio cyllid pleidiau ac etholiadau.

Rydym yn cyhoeddi canllawiau ar gyfer pleidiau gwleidyddol, ymgeiswyr a'u hasiantiaid, ac ymgyrchwyr nad ydynt yn rhai plaid ar sut y mae'n rhaid iddynt gydymffurfio â'r gofynion adrodd statudol. Rydym hefyd yn darparu canllawiau ar gyfer staff yr orsaf bleidleisio.

Hefyd rydym yn:

- annog pobl i gofrestru i bleidleisio a chodi ymwybyddiaeth am y gwahanol ffyrdd y gall pobl fwrw eu pleidlais.
- gosod y safonau ar gyfer rhedeg etholiadau a chofrestru etholiadol, ac adrodd ar ba mor dda y mae'r rhain yn cael eu gwneud
- cofrestru pleidiau gwleidyddol
- sicrhau bod pobl yn deall ac yn dilyn y rheolau ar gyllid pleidiau ac etholiadau
- cyhoeddi manylion ynghylch lle mae pleidiau yn cael eu harian a sut maent yn ei wario
- gosod safonau perfformiad i Swyddogion Canlyniadau a Swyddogion Cofrestru Etholiadol. Mae'r ddwy set o swyddogion yn adrodd ar ba mor dda y maent wedi perfformio yn erbyn y safonau hyn. Am fwy o wybodaeth ewch i'r adran Safonau Perfformiad ar wefan y Comisiwn.

Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol

Mae gan bob un o 12 rhanbarth etholiadol Ewrop yn y DU Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol (RRO). Yr RRO ar gyfer Gogledd Iwerddon yw'r Prif Swyddog Etholiadol, a phenodir 11 RRO Prydain Fawr gan Arglwydd Lywydd y Cyngor.

Mae'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol yn gyfrifol am bob agwedd o'r broses enwebu, rheoli a chydlynu'r bleidlais yn eu rhanbarth, cyfrifo'r canlyniadau, a dyrannu seddau. Mae'r RRO hefyd yn cyhoeddi'r canlyniadau.

Ceir rhestr lawn o Swyddogion Canlyniadau Rhanbarthol ar gyfer etholiadau Senedd Ewrop yn **Atodiad C**.

Swyddog Canlyniadau Lleol

Y Swyddog Canlyniadau Lleol sy'n gyfrifol am drefnu'r etholiad a'r modd y caiff ei gynnal yn yr ardal gyfrif leol, gan gynnwys anfon cardiau pleidleisio a phecynnau pleidleisio drwy'r post, cynnal y bleidlais ar 22 Mai a chyfrif y pleidleisiau yn eu hardal.

Mae gofyn i'r Swyddog Canlyniadau Lleol weithredu'n unol ag unrhyw gyfarwyddiadau a roddir gan y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol. Yr ardal gyfrif leol yw'r ardal, bwrdeistref neu ardal awdurdod lleol unedol yn Lloegr, a'r ardal awdurdod lleol yng Nghymru a'r Alban.

Swyddog Cofrestru Etholiadol

Y Swyddog Cofrestru Etholiadol (ERO) sy'n gyfrifol am baratoi a chynnal y gofrestr etholiadol a'r rhestr o bleidleiswyr absennol yn eu hardal. Mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol benodi Swyddog Cofrestru Etholiadol.

Asiant etholiadol

Rhaid i blaid neu ymgeisydd unigol gael asiant etholiadol. Dyma'r person sy'n gyfrifol am reolaeth briodol yr ymgyrch etholiadol. Rhaid i bleidiau sy'n sefyll mewn un rhanbarth etholiadol yn unig benodi asiant etholiadol hefyd.

Tybir yn awtomatig bod ymgeiswyr unigol nad ydynt yn penodi asiant yn asiant etholiadol iddynt hwy eu hunain. Os na fydd pleidiau'n penodi asiant, yna tybir mai Swyddog Enwebu'r blaid yw'r asiant.

Darllenwch y canllawiau yr ydym wedi eu cyhoeddi i asiantiaid etholiad yma.

Asiant etholiad cenedlaethol i blaid wleidyddol

Rhaid i unrhyw blaid sy'n sefyll yn yr etholiad mewn mwy nag un rhanbarth etholiadol Senedd Ewrop benodi asiant etholiad cenedlaethol sy'n gweithredu fel yr asiant etholiad i'r holl ranbarthau etholiadol lle mae gan y blaid restr o ymgeiswyr yn sefyll.

Asiantiaid pleidleisio drwy'r post, pleidleisio a chyfrif

Gall asiantiaid hefyd gael eu penodi i fod yn bresennol yn y broses o agor pleidleisiau drwy'r post, y pleidleisio a dilysu a'r cyfrif. Yn ogystal, gellir dynodi un o'r asiantiaid cyfrif ar gyfer pob plaid gofrestredig neu ymgeisydd unigol fel y sawl sy'n gallu gofyn am unrhyw ailgyfrif.

Swyddog Llywyddu a Chlercod Pleidleisio

Mae Swyddogion Canlyniadau yn penodi Swyddogion Llywyddu i redeg gorsafoedd pleidleisio. Cânt eu cefnogi gan Glercod Pleidleisio. Rhaid i staff yr orsaf bleidleisio weithredu'n ddiduedd bob amser a sicrhau bod y weithdrefn briodol ar gyfer pleidleisio yn cael ei dilyn. Mae eu dyletswyddau'n cynnwys trefnu cynllun yr orsaf bleidleisio, cyhoeddi papurau pleidleisio, cynorthwyo pleidleiswyr a sicrhau bod blychau pleidleisio yn cael eu cludo yn ddiogel i leoliad y cyfrif.

Mae'r Comisiwn Etholiadol yn cynhyrchu llawlyfr gorsaf bleidleisio ar gyfer staff yr orsaf bleidleisio. Mae'r canllawiau hyn yn cynnwys gwybodaeth i staff

yr orsaf bleidleisio, gan gynnwys 'gair i gall' a safonau hygyrchedd. Mae ar gael ar ein gwefan yma.

Rhifwyr

Mae rhifwyr yn wirfoddolwyr plaid wleidyddol sy'n sefyll tu allan i orsafoedd pleidleisio a gallant ofyn am rifau etholiadol y rhai sydd wedi pleidleisio. Maent yn adnabod cefnogwyr tebygol nad ydynt wedi pleidleisio ac yn eu hannog i bleidleisio cyn diwedd y cyfnod pleidleisio. Er eu bod yn chwarae rhan bwysig mewn etholiadau, nid oes ganddynt unrhyw statws cyfreithiol swyddogol. Nid yw'r gyfraith yn caniatáu i rifwyr weithredu tu mewn i orsafoedd pleidleisio.

Gwahaniaethau yng Ngogledd Iwerddon

Mae nifer o reolau gwahanol ar gyfer etholiadau Senedd Ewrop yng Ngogledd Iwerddon.

Ceir crynodeb byr o'r prif wahaniaethau rhwng Gogledd Iwerddon a Phrydain Fawr isod.

- Prif Swyddog Etholiadol Gogledd Iwerddon yw'r swyddog cofrestru a swyddog canlyniadau ar gyfer pob etholiad
- Mae ASEau yng Ngogledd Iwerddon yn cael eu hethol trwy ddefnyddio'r system Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy - nid oes unrhyw restrau pleidiau ac rydych yn pleidleisio dros ymgeisydd yn nhrefn blaenoriaeth yn hytrach na phlaid.
- Mae gan Ogledd Iwerddon gofrestru etholiadol unigol.
- Rhaid rhoi rheswm i fod yn gymwys am bleidlais bost. Ym Mhrydain Fawr, ceir pleidleisio drwy'r post yn ôl y galw ac nid oes rhaid rhoi rheswm.
- Rhaid dangos ID ffotograffig penodedig mewn gorsafoedd pleidleisio.
- Caiff y blaendal ei ddychwelyd os yw'r ymgeisydd unigol neu blaid wleidyddol yn cyflawni chwarter (1/4) o'r bleidlais ar unrhyw adeg yn ystod y cyfrif yn hytrach nag un rhan o ddeugain (1/40) ym Mhrydain Fawr.

Sefyll yn yr etholiad

Pwy all sefyll fel ymgeisydd yn etholiadau Senedd Ewrop?

I rywun allu sefyll fel ymgeisydd yn etholiad Senedd Ewrop ym Mhrydain Fawr a Gogledd Iwerddon, mae'n rhaid iddynt:

- fod o leiaf 18 mlwydd oed ar ddiwrnod eu henwebiad.

- fod yn ddinesydd Prydeinig neu Wyddelig; yn ddinesydd cymwys y Gymanwlad; neu'n ddinesydd unrhyw aelod wladwriaeth arall o'r Undeb Ewropeaidd sy'n byw yn y DU neu Gibraltar.

A oes unrhyw resymau pam na allai rhywun sefyll fel ymgeisydd?

Mae nifer o anghymwysiadau a fyddai'n atal person rhag sefyll. Ymhlith y rhain, mae:

- Cael eich gwahardd rhag sefyll mewn etholiad i Dŷ'r Cyffredin (gyda rhai eithriadau)

- Bod yn fath arbennig o fethdalwr.

- Cael eich cadw yn y carchar am fwy na blwyddyn neu fod yn destun i benderfyniad penodol gan y llys.

Ceir rhagor o fanylion gwaharddiadau yn ein canllaw i ymgeiswyr.

A oes rhaid i ymgeiswyr a phleidiau dalu blaendal?

Oes, y blaendal yw **£5,000** i blaid neu ymgeisydd unigol. Ar ôl yr etholiad, bydd y blaendal yn cael ei ddychwelyd os yw'r blaid neu ymgeisydd wedi cael mwy na 2.5% o gyfanswm nifer y pleidleisiau dilys a fwriwyd yn y rhanbarth etholiadol.

Pwy sy'n penderfynu pa ymgeiswyr y mae plaid yn eu cyflwyno ar gyfer etholiad Senedd Ewrop?

Ym Mhrydain Fawr mae pleidiau gwleidyddol yn defnyddio system rhestr plaid ar gyfer etholiad Senedd Ewrop. Maent yn penderfynu pa ymgeiswyr y maent eisiau eu rhoi ymlaen ac ym mha drefn y maent am iddynt ymddangos ar eu rhestr.

Yng Ngogledd Iwerddon nid oes unrhyw restrau plaid, ond mae pleidiau yn dal i benderfynu'n fewnol pa ymgeiswyr y maent yn dymuno eu rhoi ymlaen.

Hefyd gall ymgeiswyr unigol, nad ydynt yn cynrychioli unrhyw blaid wleidyddol, sefyll i gael eu hethol.

A oes rhaid i bleidiau sy'n ymladd etholiadau fod wedi cael eu cofrestru gyda'r Comisiwn?

Dim ond os ydynt wedi cofrestru gyda'r Comisiwn y gall pleidiau ymladd etholiadau. Y brif fantais yw y gall plaid gael ei henw, disgrifiad ac arwyddlun ar y papurau pleidleisio. Hefyd, unwaith y bydd plaid wedi cofrestru ei henw gyda ni, ni all unrhyw blaid arall gofrestru'r enw hwn, neu enw tebyg a fyddai'n peri dryswch. Mae hyn er mwyn atal pleidleiswyr rhag camgymryd un blaid am un arall ar y papur pleidleisio. Dim ond fel rhai 'Independent' y gall pleidiau anghofrestredig ddisgrifio eu hymgeiswyr ar y papurau pleidleisio (ac/ neu 'Annibynnol' yng Nghymru).

Darllenwch fwy am y broses gofrestru yn ein canllawiau yma.

Erbyn pryd mae rhaid i blaid fod wedi'i chofrestru i ymladd etholiadau Senedd Ewrop ym mis Mai?

Mae'r Comisiwn wedi cynghori pleidiau posibl i gyflwyno eu cais erbyn dydd Gwener 11 Ebrill er mwyn caniatáu digon o amser i'r cais gael ei brosesu.

A oes rhaid i chi sefyll o dan enw plaid wleidyddol?

Na. Gall person sefyll fel ymgeisydd unigol, h.y. ddim i unrhyw blaid wleidyddol.

A all bob plaid ddefnyddio disgrifiad ac/ neu arwyddlun ar y papur pleidleisio?

Gallant, gall pleidiau sydd wedi'u cofrestru gyda'r Comisiwn Etholiadol ofyn am i un o'u disgrifiadau cofrestredig ac/ neu un o arwyddluniau swyddogol eu plaid gael eu hargraffu ar y papur pleidleisio.

Gall pleidiau yng Nghymru ddefnyddio naill ai'r fersiwn Saesneg neu'r fersiwn Gymraeg o'u disgrifiadau, neu'r ddwy fersiwn o naill ai enw'r blaid neu ddisgrifiad ar yr amod eu bod wedi'u cofrestru gyda ni.

Beth am ymgeiswyr unigol?

Dim ond y disgrifiad 'Independent' y caiff ymgeiswyr unigol ei ddefnyddio ar y papurau pleidleisio (ac/neu 'Annibynnol' yng Nghymru) ac ni allant ddefnyddio arwyddlun.

Beth sy'n digwydd ar ôl i'r enwebiadau gau?

Bydd y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol yn cyhoeddi datganiad o'r pleidiau ac unigolion a enwebwyd i'r rhanbarth etholiadol ar ddiwedd y cyfnod ar gyfer gwrthwynebu papurau enwebu (5pm ar 24 Ebrill 2014), ar yr amod nad oes unrhyw wrthwynebiadau.

Ymgyrchu

Mae llawer o reolau ynghylch ymgyrchoedd etholiadau ymgeiswyr. Mae'r rhain yn amrywio o ddefnyddio argraffnodau ar ddeunyddiau etholiad i'r datganiadau am ymgeiswyr eraill. Ceir canllawiau manwl ar reolau ymgyrchu yma.

A oes rheolau ynghylch yr hyn y gall ymgeiswyr ddweud am ei gilydd?

Fel ym mhob etholiad, mae'n anghyfreithlon gwneud datganiad ffug am gymeriad personol ymgeisydd er mwyn effeithio ar etholiad yr ymgeisydd. Mae'r rheolau ynghylch difenwi hefyd yn berthnasol i ddeunyddiau etholiad.

Gall yr heddlu ymchwilio i honiadau o drosedd etholiadol benodol o wneud datganiad ffug. Mater i'r llysoedd sifil yw materion difenwi.

Nid oes gan y Comisiwn Etholiadol unrhyw rôl rheoleiddio mewn perthynas â chynnwys deunydd ymgyrchu a ddefnyddir mewn etholiadau.

A fyddai'r Comisiwn Etholiadol yn ymchwilio petai rhywun yn dweud rhywbeth ffug am ymgeisydd neu blaid sy'n wrthwynebydd iddo mewn deunydd ymgyrch?

Na. Nid oes gan y Comisiwn rôl o ran plismona cynnwys deunydd ymgyrch. Byddai'r heddlu'n ymchwilio i honiadau o drosedd benodol o wneud datganiad ffug fel y crybwyllir uchod. Mater i'r llysoedd sifil yw materion difenwi.

Beth yw 'argraffnod'?

Ychwanegir argraffnod at ddeunydd ymgyrch i ddangos pwy sy'n gyfrifol am ei gynhyrchu. Mae'n helpu i sicrhau bod tryloywder ynghylch pwy sy'n ymgyrchu.

Dylai gynnwys enw a chyfeiriad yr argraffydd a hyrwyddwr deunyddiau etholiadol yr ymgeisydd.

Dylai argraffnod safonol edrych fel hyn:

Argraffwyd gan Argraffdy Armadillo Ltd, 20 Barry Avenue, Leeds. Hyrwyddwyd gan J Smith ar ran y Blaid Pleidleisio, y ddau o 110 Stryd Fawr, Stafford.

Pa ddefnyddiau ddylai gynnwys argraffnod?

Rhaid i bob deunydd etholiad a argraffwyd (h.y. posteri, placardiau a thaflenni a ddosberthir i ddiben hyrwyddo ethol ymgeisydd) gynnwys argraffnod.

Gallai methiant i gynnwys argraffnod ar ddeunydd etholiadol arwain at gamau gorfodi gan y Comisiwn.

Dylai deunyddiau electronig - fel gwefannau a negeseuon e-bost – hefyd fod ag argraffnodau. Dylai'r argraffnod gynnwys enw a chyfeiriad yr hyrwyddwr a'r sefydliad y cynhyrchwyd ef ar ei ran.

Beth yw digwyddiad hysting?

Cyfarfod yw hwn lle mae ymgeiswyr etholiad neu bleidiau yn trafod polisïau ac yn ateb cwestiynau gan y gynulleidfa.

Fel arfer, caiff digwyddiadau hysting eu cynnal gan sefydliadau, fel grwpiau cymunedol neu ymgyrchwyr, fel y gall pleidleiswyr ofyn i'r ymgeiswyr am faterion sy'n bwysig iddynt hwy.

Mae'r Comisiwn yn cynhyrchu canllawiau ar gyfer pleidiau, ymgeiswyr, asiantiaid a threfnwyr hystingau. Am ragor o wybodaeth, gweler y ddogfen *Digwyddiadau hysting* ar wefan y Comisiwn yma.

Gwariant a rhoddion plaid yn etholiad Senedd Ewrop

Mae terfynau ar yr hyn y gall pleidiau gwleidyddol ei wario ar ymgyrchu yn y cyfnod cyn yr etholiadau.

Mae'r rheolau ychydig yn wahanol ar gyfer ymgeiswyr unigol sy'n sefyll yn etholiadau Senedd Ewrop. Gweler tudalen 18 am fwy o fanylion ynghylch y rheolau sy'n effeithio ar ymgeiswyr unigol.

Beth yw'r 'cyfnod rheoledig'?

Hwn yw'r cyfnod o amser pan fo terfynau gwariant a rheolau yn berthnasol.

Ar gyfer etholiadau Senedd Ewrop yn 2014, dechreuodd ar **23 Ionawr 2014** ac mae'n gorffen ar **22 Mai 2014**.

Faint all pleidiau ei wario mewn etholiadau Senedd Ewrop?

Mae'r terfyn gwariant ar gyfer plaid ar gyfer y cyfnod rheoledig yn £45,000 wedi'i luosi gan y nifer o ASEau sydd i'w dychwelyd ym mhob rhanbarth.

Gweler y terfynau gwariant ar gyfer pob rhanbarth isod:

Rhanbarth etholiadol	Terfynau gwario
Dwyrain Canolbarth Lloegr	£225,000
Dwyrain Lloegr	£315,000
Llundain	£360,000
Gogledd-ddwyrain Lloegr	£135,000
Gogledd-orllewin Lloegr	£360,000
De Ddwyrain Lloegr	£450,000
De-orllewin Lloegr	£270,000
Gorllewin Canolbarth Lloegr	£315,000
Swydd Efrog a'r Humber	£270,000
Cymru	£180,000
Yr Alban	£270,000
Gogledd Iwerddon	£135,000

A yw'r gwariant cyn y cyfnod rheoledig yn cyfrif?

Gall wneud mewn rhai achosion. Rhaid i arian a wariwyd cyn dechrau'r cyfnod rheoledig gael ei gynnwys os yw'r nwyddau neu'r gwasanaethau a brynwyd yn cael eu defnyddio yn ystod y cyfnod rheoledig.

Pa weithgareddau sy'n cyfrif tuag at y terfyn gwario?

Y gweithgareddau a gynhwysir mewn gwariant ymgyrch yw:

- Hysbysebu o unrhyw fath. Er enghraifft, baneri stryd, gwefannau neu fideos YouTube.
- Deunydd digymell a anfonir i bleidleiswyr. Er enghraifft, llythyrau neu daflenni.
- Y maniffesto a dogfennau eraill sy'n nodi'r polisïau'r blaid.
- Ymchwil marchnad neu ddulliau eraill o ddarganfod sut mae pobl yn bwriadu pleidleisio.
- Cynadleddau i'r wasg neu drafodion eraill gyda'r cyfryngau.
- Ralïau a digwyddiadau.
- Trafnidiaeth mewn cysylltiad â rhoi cyhoeddusrwydd i ymgyrch.

Gan bwy all pleidiau dderbyn rhoddion?

Yn ôl y gyfraith, dim ond o rai ffynonellau y gall pleidiau gwleidyddol dderbyn rhoddion. Rhaid i unrhyw roddion dros £500 ddod o ffynonellau a ganiateir.

Y rhain yw:

- Unigolyn sydd wedi'i gofrestru ar gofrestr etholiadol y DU, gan gynnwys etholwyr tramor a'r rheiny sy'n gadael cymynroddion.
- Plaid wleidyddol sydd wedi cofrestru ym Mhrydain Fawr.
- Cwmni sydd wedi'i gofrestru yn y DU sydd wedi ei ymgorffori o fewn yr Undeb Ewropeaidd (UE) ac sy'n cynnal busnes yn y DU.
- Undeb llafur a gofrestrwyd yn y DU.
- Cymdeithas adeiladu a gofrestrwyd yn y DU.
- Partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig (LLP) a gofrestrwyd yn y DU ac sy'n cynnal busnes yn y DU.
- Cymdeithas gyfeillgar a gofrestrwyd yn y DU.
- Cymdeithas anghorfforedig a leolir yn y DU ac sy'n cynnal busnes neu weithgareddau eraill yn y DU.

A oes cyfyngiad ar faint o roddion y gall plaid eu derbyn?

Na. Dim ond ar y swm o arian y mae pleidiau yn ei wario yn ystod y cyfnod rheoledig y gosodir terfyn.

A oes rhaid i bleidiau adrodd ar eu gwariant?

Oes. Ar ôl yr etholiad, mae'n rhaid i bleidiau gwleidyddol adrodd ynghylch faint y maent yn ei wario ar ymgyrchu yn ystod y cyfnod rheoledig. Rhaid adrodd ar hyn i ni.

Os yw pleidiau'n gwario £250,000 neu lai, y dyddiad cau ar gyfer adrodd yw **22 Awst 2014.** Os yw pleidiau'n gwario dros £250,000, y dyddiad cau ar gyfer adrodd yw **22 Tachwedd 2014.**

Rhaid i ymgeiswyr rhestr plaid hefyd baratoi a chyflwyno ffurflen gwariant etholiad ar gyfer eu treuliau personol i'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol o fewn 50 diwrnod i ddyddiad cyhoeddi'r canlyniad.

A allaf i weld ffurflenni gwariant pleidiau ar ôl yr etholiad?

Gallwch. Bydd y Comisiwn yn cyhoeddi'r ffurflenni hyn heb fod yn hwyrach na 20 diwrnod gwaith ar ôl y dyddiadau cau uchod.

Beth am wariant ymgyrchwyr nad ydynt yn rhai plaid?

Mae terfynau hefyd ar wariant ymgyrch nad yw'n un plaid.

Darllenwch fwy am y rheolau hyn yma.

Gwariant a rhoddion ymgeiswyr unigol yn etholiad Senedd Ewrop

Fel pleidiau, mae'n rhaid i ymgeiswyr unigol a'u hasiantiaid yn etholiadau Senedd Ewrop ddilyn rheolau penodol am faint y maent yn ei wario, gan bwy y gallant dderbyn rhoddion, a'r hyn y mae'n rhaid iddynt adrodd arno ar ôl yr etholiad.

Beth yw'r 'cyfnod rheoledig' ar gyfer ymgeiswyr unigol?

Mae'r cyfnod rheoledig yn dechrau ar y dyddiad ar ôl i berson ddod yn ymgeisydd unigol yn swyddogol ac mae'n gorffen ar ddiwedd y bleidlais.

Ac eithrio rhanbarth cyfunol De-orllewin Lloegr (sy'n cynnwys Gibraltar) y dyddiad cynharaf y gall rhywun ddod yn ymgeisydd yn swyddogol yw **Dydd Llun 14 Ebrill 2014.** Os yw person yn sefyll yn y rhanbarth cyfunol De-orllewin Lloegr, y dyddiad cynharaf y gallant ddod yn ymgeisydd yn swyddogol yw **Dydd Iau 10 Ebrill 2014**.

Faint all ymgeiswyr unigol ei wario yn etholiadau Senedd Ewrop?

Y terfyn gwariant ar gyfer ymgeiswyr unigol (h.y. y rhai nad ydynt ar restr plaid) ar gyfer y cyfnod rheoledig yw £45,000 wedi'i luosi gan y nifer o ASEau sydd i'w dychwelyd ym mhob rhanbarth

Mae hyn yr un fath â'r terfynau ar gyfer gwariant pleidiau a ddangosir yn y tabl yn yr adran flaenorol.

I bwy mae ymgeiswyr unigol yn adrodd ar eu gwariant a phryd?

Bydd angen i asiant etholiad ymgeisydd unigol baratoi a chyflwyno ffurflen gwariant etholiad i'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol erbyn Dydd Llun 14 Gorffennaf (ar gyfer canlyniadau a gyhoeddir ar Ddydd Sul 25 Mai) neu Ddydd Mawrth 15 Gorffennaf (ar gyfer canlyniadau a gyhoeddir ar Ddydd Llun 26 Mai).

Bydd angen i'r ymgeisydd a'r asiant etholiad lofnodi datganiad yn nodi bod y cofnod yn gyflawn ac yn gywir hyd eithaf eu gwybodaeth a'u cred.

A oes rhaid i ymgeiswyr ddweud wrth y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol hyd yn oed os nad ydynt yn gwario unrhyw beth?

Oes. Hyd yn oed os nad yw ymgeisydd yn gwario unrhyw beth, rhaid dychwelyd ffurflen sy'n dangos sero neu ddim.

A allaf i weld y ffurflenni ar ôl yr etholiad?

Gallwch. Mae ffurflenni gwariant ymgeiswyr yn cael eu cadw gan y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol a byddant ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd ar gais am flwyddyn ar ôl iddynt gael eu derbyn.

A oes rhaid i ymgeiswyr adrodd ynglŷn â rhoddion yn ogystal â threuliau?

Oes. Mae'n rhaid i ffurflen wariant yr ymgeisydd gynnwys manylion am unrhyw roddion a gafwyd tuag at eu hymgyrch a oedd dros £50.

Fodd bynnag, efallai y bydd rhai ymgeiswyr yn derbyn rhoddion ar gyfer gweithgareddau gwleidyddol eraill heblaw eu hymgeisyddiaeth (er enghraifft, rhodd o dreuliau teithio i wlad lle mae ganddynt ddiddordeb). Rhaid iddynt adrodd am y rhoddion hyn i'r Comisiwn Etholiadol yn rhinwedd eu swydd fel 'derbynnydd rheoledig' os yw'r rhoddion dros £1,500.

Beth yw 'derbynnydd rheoledig'?

Derbynwyr rheoledig yw:

- deiliaid swydd etholedig berthnasol
- aelodau o bleidiau gwleidyddol cofrestredig
- cymdeithasau aelodau

Ceir rheolau ynglŷn â'r rhoddion y gall derbynwyr rheoledig eu derbyn, a'r benthyciadau y gallant eu gwneud, sydd mewn cysylltiad â'u gweithgareddau gwleidyddol.

Darllenwch fwy am y rheolau sy'n effeithio ar dderbynwyr rheoledig yma.

Twyll etholiadol

Mae nifer o droseddau sy'n ymwneud â thwyll etholiadol. Byddai'r heddlu perthnasol ar gyfer yr ardal lle mae'r etholiadau yn cael eu cynnal yn ymchwilio i unrhyw honiadau y gallai fod trosedd wedi digwydd.

Mae pob Heddlu wedi dynodi Pwynt Cyswllt Unigol (a elwir yn SPOC) i arwain ar droseddau sy'n gysylltiedig ag etholiad, a bydd yn cynghori swyddogion heddlu lleol. Dylai unrhyw un sy'n gwneud honiad fod yn barod i roi datganiad i'r heddlu a rhoi tystiolaeth ynglŷn â'u pryderon.

Dylai unrhyw un, gan gynnwys ymgeiswyr, gwleidyddion ac aelodau'r cyhoedd, sydd â thystiolaeth fod twyll etholiadol wedi digwydd fynd yn syth at yr heddlu.

Beth yw'r gwahanol fathau o droseddau etholiadol?

Cambersonadu

Dyma lle mae unigolyn yn pleidleisio fel rhywun arall (boed hwnnw'n rhywun byw neu farw, neu'n berson ffug), naill ai drwy'r post neu'n bersonol mewn gorsaf bleidleisio, fel etholwr neu fel dirprwy.

Dylanwad gormodol / Bygythiad

Mae person yn euog o ddylanwad gormodol os ydynt yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol yn defnyddio neu'n bygwth defnyddio grym, trais neu ataliaeth, neu achosi neu fygwth achosi anaf, difrod, colled neu niwed, er mwyn ysgogi neu gymell unrhyw bleidleisiwr i bleidleisio neu ymatal rhag pleidleisio.

Llwgrwobrwyo

Mae person yn euog o lwgrwobrwyo os ydynt yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol yn rhoi unrhyw arian neu'n caffael unrhyw swydd i neu ar gyfer unrhyw bleidleisiwr, er mwyn cymell y bleidleisiwr i bleidleisio neu ymatal rhag pleidleisio.

Troseddau pleidleisio lluosog a throseddau pleidleisio drwy ddirprwy

Mae amryw o droseddau ynghylch pleidleisio lluosog a phleidleisio drwy ddirprwy, gan gynnwys pleidleisio fel etholwr neu ddirprwy pan yn destun i anallu cyfreithiol i bleidleisio a phleidleisio fwy nag unwaith yn yr un etholiad.

Gwybodaeth gofrestru ffug

Mae'n drosedd cyflenwi gwybodaeth gofrestru ffug i Swyddog Cofrestru Etholiadol. Mae hefyd yn drosedd darparu gwybodaeth ffug mewn cysylltiad â chais am bleidlais drwy'r post neu drwy ddirprwy.

A yw pleidleisio drwy'r post yn ddiogel?

Mae pleidleisio drwy'r post yn ôl y galw yn fwy diogel yn dilyn tynhau'r gyfraith yn 2007 ac fe'i defnyddir gan 15% o etholwyr yn genedlaethol.

Rhaid i bleidleiswyr drwy'r post yn awr roi eu llofnod a'u dyddiad geni wrth wneud cais am bleidlais, a hefyd wrth fwrw eu pleidlais drwy'r post. Dylai pleidleiswyr wneud yn siŵr eu bod yn cwblhau eu pleidlais drwy'r post yn gyfrinachol a'i dychwelyd yn uniongyrchol i'r Swyddog Canlyniadau.

Mae'r ddau gofnod wedyn yn cael eu gwirio. Os nad ydynt yn cyfateb, bydd y papur pleidleisio yn cael ei wrthod.

Sut mae'r Comisiwn Etholiadol yn gweithio gyda phleidiau gwleidyddol i atal twyll pleidleisio drwy'r post?

Mae gan y Comisiwn Etholiadol god ymddygiad y cytunwyd arno gyda phleidiau gwleidyddol. O safbwynt ymgeiswyr ac ymgyrchwyr, dywed y cod:

- na ddylent fyth gyffwrdd na thrin papur pleidleisio unrhyw un arall.
- na ddylent fyth arsylwi ar bleidleiswyr yn cwblhau eu papur pleidleisio. Os ydych gyda phleidleisiwr pan fydd yn cwblhau ei bapur pleidleisio, cofiwch y dylent bob amser ei gwblhau'n gyfrinachol.
- na ddylent ofyn neu annog pleidleiswyr i roi unrhyw bapur pleidleisio wedi'i gwblhau neu amlen papur pleidleisio iddynt.
- Os yw pleidleisiwr yn gofyn iddynt fynd â phecyn pleidleisio post a gwblhawyd ar eu rhan, dylai ymgyrchwyr ei bostio ar unwaith neu fynd ag ef yn uniongyrchol at swyddfa'r Swyddog Canlyniadau neu i orsaf bleidleisio.

Yn gynharach eleni, cyhoeddodd y Comisiwn ganlyniadau'r adolygiad eang o'r mannau bregus mewn twyll etholiadol ac argymhellodd nad yw ymgyrchwyr bellach yn trin ffurflenni cais am bleidlais bost neu drwy ddirprwy na phapurau pleidleisio post sydd wedi'u gwblhau.

Mae'r Comisiwn yn awr yn y broses o drafod y newidiadau hyn gyda phleidiau gwleidyddol ac ymgyrchwyr eraill ac mae'n bwriadu cyflwyno Cod Ymddygiad diwygiedig i Ymgyrchwyr ar gyfer etholiadau ar ôl Mai 2014, gan gynnwys etholiad cyffredinol Seneddol y DU ym Mai 2015. Bydd manylion ynghylch ba bleidiau ac ymgyrchwyr sydd wedi cytuno i ddilyn y cod yn cael ei wneud yn gyhoeddus.

Beth sy'n digwydd os yw plaid wleidyddol yn torri eich cod ymddygiad?

Mae'r Comisiwn Etholiadol yn gofyn i bleidiau gwleidyddol ymchwilio i unrhyw doriadau yr adroddwyd arnynt a chymryd camau i sicrhau na fydd unrhyw broblemau yn cael eu hailadrodd. Mae hyn yn cynnwys o bosibl cymryd camau disgyblu yn erbyn aelodau'r blaid.

Beth mae'r Comisiwn Etholiadol yn ei wneud i atal twyll yn yr etholiadau hyn?

Mae'r Comisiwn wedi nodi nifer o ardaloedd lle mae risg uwch o honiadau o dwyll etholiadol.[3]

Yn gynharach eleni, galwodd y Comisiwn am weithredu i ddiogelu hygrededd etholiadau ym mhob ardal, ond yn arbennig yn yr ardaloedd risg uwch. Yn benodol, gofynnwyd i Swyddogion Cofrestru Etholiadol (EROs) a Swyddogion Canlyniadau (ROs) ddadansoddi hanes eu hardal o ran twyll etholiadol honedig a llwyddiannus, ynghyd â data etholiadol o etholiadau blaenorol.

Yn seiliedig ar y dadansoddiad hwn, gofynnwyd iddynt gynllunio pa gamau y byddent yn eu cymryd yn erbyn twyll - er enghraifft, y profion y byddent yn eu defnyddio wrth ystyried ceisiadau i gofrestru i bleidleisio.

Anogwyd Heddluoedd yn ogystal i fod â chynlluniau cadarn yn eu lle ar gyfer plismona etholiadau, a luniwyd mewn ymgynghoriad â Swyddogion Cofrestru Etholiadol a Swyddogion Canlyniadau.

Pwy sy'n gyfrifol am roi cynlluniau yn eu lle i ddelio â thwyll etholiadol?

Y Swyddogion Canlyniadau sydd â'r cyfrifoldeb am sicrhau bod cynlluniau cadarn yn eu lle i atal a chanfod twyll etholiadol. Rhaid iddynt weithio'n agos gyda'u Heddlu lleol. Mae'r Comisiwn Etholiadol yn monitro'r cynlluniau hyn ac mae'n nodi'n glir pan fo angen gwneud mwy er mwyn diogelu hygrededd etholiadau.

Beth fwy sy'n cael ei wneud i atal twyll etholiadol?

Mae Cofrestru Etholiadol Unigol (IER) yn dod i rym yn ddiweddarach eleni i dynhau'r broses gofrestru. Bu'r Comisiwn yn galw am hyn ers 2003.
O dan y system newydd hon, bydd gofyn i unigolion ddarparu 'gwybodaeth adnabod', megis dyddiad geni a rhif yswiriant gwladol, pan maent yn gwneud cais i gofrestru.

Yn ddiweddar hefyd mae'r Comisiwn wedi argymell y dylai fod yn ofynnol i bleidleiswyr ddangos ID mewn gorsafoedd pleidleisio ym Mhrydain Fawr ac ar hyn o bryd mae'n gweithio ar gynigion manwl ar gyfer sut y dylai'r cynllun weithio.

[3] Birmingham, Blackburn gyda Darwen, Bradford, Burnley, Calderdale, Coventry, Derby, Hyndburn, Kirklees, Oldham, Pendle, Peterborough, Slough, Tower Hamlets, Walsall, a Woking.

Cofrestru i bleidleisio

Pwy sy'n cael cofrestru?

Mae unrhyw berson sy'n byw yn ardal yr awdurdod lleol ac sy'n bodloni'r cymhwyster oedran a chenedligrwydd yn gallu cofrestru i bleidleisio.

Y cymhwyster oed yw:

- y caiff person gofrestru pan fyddant yn 16 oed ond ni allant bleidleisio nes eu bod yn 18 oed neu drosodd

Y cymhwyster cenedligrwydd yw eu bod:

- yn ddinesydd Prydeinig
- yn ddinesydd cymwys y Gymanwlad [4]
- yn ddinesydd o unrhyw wlad arall yn yr Undeb Ewropeaidd

Beth yw'r dyddiad cau ar gyfer cofrestru i bleidleisio?

Rhaid i bobl gofrestru erbyn Dydd Mawrth 6 Mai 2014 er mwyn gallu pleidleisio ar Ddydd Iau 22 Mai 2014.

Beth yw'r dyddiad cau ar gyfer gwneud cais am bleidleisio drwy'r post a thrwy ddirprwy?

Y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais am bleidlais drwy'r post yw 5pm, Dydd Mercher 7 Mai 2014.

Y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais am bleidlais drwy ddirprwy (ac eithrio ar gyfer ceisiadau dirprwy argyfwng) yw 5pm, Dydd Mercher 14 Mai 2014.

Sut all rhywun gofrestru i bleidleisio?

Gall pobl gofrestru i bleidleisio drwy gysylltu â'r Swyddog Cofrestru Etholiadol yn eu hawdurdod lleol neu ymweld â www.fymhleidlaisi.co.uk i lawrlwytho ffurflen gofrestru. Rhaid i'r ffurflen gael ei chwblhau a'i dychwelyd i'w Swyddog Cofrestru Etholiadol.

Beth mae'r Comisiwn Etholiadol yn ei wneud i annog pobl i gofrestru i bleidleisio?

Ar ddechrau mis Ebrill byddwn yn lansio ein hymgyrch ymwybyddiaeth y cyhoedd ar gyfer etholiadau 22 Mai 2014. Mae'r ymgyrch, a fydd yn rhedeg ar draws y teledu, radio a chyfryngau ar-lein yn y cyfnod hyd at y dyddiad cau cofrestru, yn gwneud pobl yn ymwybodol o'r angen i gofrestru erbyn 6 Mai 2014 os ydynt am bleidleisio yn yr etholiadau.

[4] Dinesydd cymwys y Gymanwlad yw un sydd â hawl i ddod i mewn neu i aros yn y DU neu nad oes angen y fath hawl arno.

A all rhywun gofrestru i bleidleisio mewn dau gyfeiriad gwahanol?

Mae hyn yn dibynnu ar amgylchiadau penodol yr unigolyn.

Gall person gofrestru i bleidleisio mewn cyfeiriad os ydynt yn byw yn y cyfeiriad hwnnw.

Gall fod yn bosibl cael eu cofrestru mewn mwy nag un cyfeiriad, cyhyd â bod y person yn preswylio yn y ddau gyfeiriad.

Enghraifft o hyn yw myfyrwyr llawn-amser, a all gofrestru yn eu cyfeiriad yn ystod y tymor ac yn eu cyfeiriad cartref. Byddai'n drosedd i berson bleidleisio ddwywaith.

Mater i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol lleol yw penderfynu os yw person yn byw mewn unrhyw eiddo penodol.

A all carcharorion gofrestru?

Gall carcharorion ar remand gofrestru (sef y rhai nad ydynt wedi eu cael yn euog neu wedi'u dedfrydu). Ni all carcharorion a gafwyd yn euog ac a gedwir yn gaeth oherwydd eu dedfryd gofrestru.

Sut mae aelodau'r lluoedd arfog yn cofrestru?

Gall personél y lluoedd arfog a'u priod neu bartner sifil, sy'n gwasanaethu yn y DU neu dramor, gofrestru naill ai yn eu cyfeiriad cartref yn y DU fel pleidleisiwr cyffredin neu fel 'pleidleisiwr lluoedd arfog'.

Mae pleidleiswyr lluoedd arfog yn cwblhau datganiad lluoedd arfog fel y gallant gael eu cofrestru pan fyddant i ffwrdd o'u cyfeiriad cartref ar ddyletswydd.

Am fwy o wybodaeth ewch i adran Lluoedd Arfog ein gwefan.

Beth am ddinasyddion Prydeinig dramor?

Gall dinasyddion Prydeinig sy'n byw dramor hefyd bleidleisio yn etholiadau Ewrop drwy'r post neu drwy ddirprwy, ar yr amod eu bod wedi cofrestru fel etholwyr tramor.

I gofrestru fel etholwr tramor, rhaid i alltudion fod wedi cael eu cofrestru i bleidleisio yn y DU o fewn y 15 mlynedd diwethaf. Gall y rhai a oedd yn rhy ifanc i gofrestru pan oeddynt yn gadael y DU hefyd gofrestru fel pleidleisiwr tramor cyhyd â bod eu rhiant neu warcheidwad wedi'i gofrestru i bleidleisio yn y DU yn ystod y 15 mlynedd diwethaf.

I beth y gellir defnyddio'r gofrestr etholiadol?

Mae dwy fersiwn o'r gofrestr etholiadol – y 'gofrestr wedi'i golygu' a'r gofrestr 'lawn'.

- Defnyddir y gofrestr lawn ar gyfer etholiadau, atal a chanfod trosedd, a gwirio ceisiadau am gredyd. Rhaid i gopi o'r gofrestr lawn fod ar gael i'w harchwilio, o dan oruchwyliaeth, yn swyddfa'r Swyddog Cofrestru Etholiadol ac mewn unrhyw le arall (os o gwbl) sy'n addas i'w harchwilio yn yr ardal gofrestru.

- Gellir gwerthu'r gofrestr wedi'i golygu i unrhyw un a'i defnyddio i unrhyw ddiben, gan gynnwys marchnata uniongyrchol. Os nad yw pobl yn dymuno i'w manylion gael eu gwerthu ymlaen i unrhyw un arall, dylent roi tic yn y blwch eithrio allan.

A yw ymgeiswyr a phleidiau unigol yn derbyn copi o'r gofrestr etholiadol?

Ydynt. Mae gan ymgeiswyr unigol (unwaith y byddant wedi dod yn ymgeisydd swyddogol) yr hawl i dderbyn copi am ddim o'r gofrestr etholiadol lawn a'r rhestrau o bobl sy'n pleidleisio drwy'r post neu drwy ddirprwy (rhestrau pleidleiswyr absennol) ar gyfer y rhanbarth etholiadol lle maent yn ymladd.

Mae gan asiant etholiad plaid wleidyddol gofrestredig yr hawl i gael copi am ddim o'r gofrestr etholiadol lawn a rhestrau pleidleiswyr absennol i'r cyfan o'r rhanbarth etholiadol. Dim ond ar ôl i Swyddog Enwebu'r blaid, neu rywun a awdurdodwyd yn ysgrifenedig i weithredu ar eu rhan, gyflwyno ffurflen enwebu y gellir cyflenwi'r gofrestr a rhestrau i'r asiant etholiad.

Gall pleidiau ac ymgeiswyr unigol ddefnyddio'r gofrestr etholiadol:
- i'w helpu i ymgyrchu
- i wirio bod rhoddion a benthyciadau yn dod o ffynonellau a ganiateir

Ni ddylid rhyddhau manylion sy'n ymddangos yn y gofrestr lawn yn unig, ac nad ydynt yn ymddangos yn y fersiwn wedi'i golygu o'r gofrestr.

Pleidleisio

Pwy all bleidleisio yn etholiad Senedd Ewrop?

Er mwyn pleidleisio yn etholiad Senedd Ewrop rhaid i berson fod wedi cofrestru i bleidleisio ac hefyd fod yn un o'r canlynol:

- yn ddinesydd Prydeinig sy'n byw yn y DU
- yn ddinesydd Prydeinig sy'n byw dramor ac sydd wedi ei gofrestru i bleidleisio yn y DU o fewn y 15 mlynedd diwethaf
- yn ddinesydd y Gymanwlad cymwys sy'n byw yn y DU
- yn ddinesydd Gweriniaeth Iwerddon sy'n byw yn y DU
- yn ddinesydd yr Undeb Ewropeaidd sy'n byw yn y DU
- rhywun wedi cofrestru i bleidleisio fel un o Weision y Goron
- rhywun wedi cofrestru i bleidleisio fel pleidleisiwr lluoedd arfog

Dim ond os ydynt wedi datgan eu bod yn bwriadu pleidleisio yn y DU, yn hytrach nag yn y wlad UE lle maent yn ddinesydd, y gall dinasyddion yr Undeb Ewropeaidd sy'n byw yn y DU bleidleisio yn etholiadau Senedd Ewrop.

Gall pobl ddod o hyd i ragor o wybodaeth am yr etholiadau, a lawrlwytho ffurflen cofrestru pleidleiswyr, drwy ymweld â'n gwefan, www.fymhleidlaisi.co.uk. Y dyddiad cau ar gyfer cofrestru i bleidleisio yn yr etholiadau yw **Dydd Mawrth 6 Mai.**

Pryd fydd gorsafoedd pleidleisio ar agor?

Mae pob gorsaf bleidleisio agor am 7am ac yn cau am 10pm.

Lle all pobl fynd i gael rhagor o wybodaeth?

- Gall pleidleiswyr ffonio llinell gymorth y Comisiwn Etholiadol ar 0800 3 280 280 am gyngor ar sut i gofrestru i bleidleisio, y broses o bleidleisio, ac i ofyn am ffurflen cofrestru pleidleisiwr. Bydd y llinell gymorth yn agor ddiwedd Mawrth 2012.

- Mae ein gwefan, www.fymhleidlaisi.co.uk, yn cynnwys yr holl wybodaeth mae pobl ei hangen i gofrestru i bleidleisio, gan gynnwys ffurflenni cofrestru pleidleiswyr. Ar y safle hwn, gall pleidleiswyr hefyd wylio gorsaf bleidleisio animeiddiedig y gellir cerdded drwyddi a darllen am y broses o bleidleisio.

- Gall timau etholiadau mewn awdurdodau lleol gynnig cyngor ar sut i gofrestru i bleidleisio. Dylai pobl gysylltu â'u hawdurdod lleol os ydynt yn ansicr p'un a ydynt ar y gofrestr etholiadol ai peidio.

Sut mae pobl yn pleidleisio?

Mae tair ffordd y gall pleidleiswyr fwrw eu pleidlais:

- Yn bersonol mewn gorsaf bleidleisio
- Drwy'r post
- Drwy ddirprwy

Pa system bleidleisio a ddefnyddir?

Ym Mhrydain Fawr defnyddir cynrychiolaeth gyfrannol (rhestr gaeedig) ar gyfer etholiad Senedd Ewrop.

Yng Ngogledd Iwerddon, defnyddir y system pleidlais drosglwyddadwy sengl (STV).

Sut fydd y papur pleidleisio yn edrych?

Ym Mhrydain Fawr, bydd pleidiau yn cael eu rhestru gyntaf ar y papur pleidleisio yn nhrefn yr wyddor, ac yna ymgeiswyr unigol eto yn nhrefn yr wyddor.

Yng Ngogledd Iwerddon, bydd y papur pleidleisio yn darparu rhestr o ymgeiswyr yn unig.

Gellir gweld papurau pleidleisio enghreifftiol yn **Atodiad A.**

Sut y dylai papurau pleidleisio gael eu cwblhau ar gyfer etholiadau Senedd Ewrop?

Ym Mhrydain Fawr rydych yn nodi un groes yn erbyn naill ai:

a) Y blaid yr ydych yn dymuno pleidleisio iddi.
b) Yr ymgeisydd unigol yr ydych yn dymuno pleidleisio iddo.

Mae Gogledd Iwerddon yn defnyddio'r system bleidlais sengl drosglwyddadwy (STV) sy'n golygu fod pleidleiswyr yn marcio 1, 2, 3 ac yn y blaen yn erbyn ymgeiswyr yn nhrefn blaenoriaeth.

Sut mae rhywun yn pleidleisio mewn gorsaf bleidleisio?

Bydd pob gorsaf bleidleisio yn agor rhwng 7am a 10pm ar y diwrnod pleidleisio. Rhoddir gorsaf bleidleisio benodol i bob pleidleisiwr ei mynychu sy'n gwasanaethu'r ardal lle maent yn byw. Bydd y Swyddog Canlyniadau Lleol yn anfon cerdyn pleidleisio i bob etholwr yn nodi ble mae eu gorsaf bleidleisio.

Nid oes angen i bleidleiswyr ddod â'u cerdyn pleidleisio gyda hwy pan fyddant yn pleidleisio.

Gall y swyddfa etholiadau yn y cyngor lleol perthnasol roi gwybodaeth am ble mae'r gorsafoedd pleidleisio.

Sut mae rhywun yn pleidleisio drwy'r post?

Gall y rhai sydd eisoes wedi cofrestru i bleidleisio ddewis pleidleisio drwy'r post os nad ydynt yn gallu, neu ddim yn dymuno, mynd i'r orsaf bleidleisio yn bersonol. Y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais am bleidlais drwy'r post ar gyfer etholiadau Senedd Ewrop yw 5pm ar 7 Mai 2014.

Gall pleidleiswyr wneud cais am bleidlais drwy'r post ar gyfer etholiad unigol, am gyfnod penodol neu am gyfnod amhenodol. Wrth wneud cais am bleidlais drwy'r post, rhaid i bleidleiswyr roi eu dyddiad geni a'u llofnod. Mae'r rhain yn cael eu hadnabod fel 'dynodwyr personol' ac yn cael eu gwirio fel mesur diogelwch pan fydd pleidleiswyr yn bwrw eu pleidlais drwy'r post.

Rhaid i bleidleisiau drwy'r post gael eu derbyn yn ôl gan y Swyddog Canlyniadau Lleol erbyn 10pm ar y diwrnod pleidleisio. Gellir eu postio neu eu dychwelyd â llaw i'r Swyddog Canlyniadau Lleol yn swyddfeydd y cyngor perthnasol, neu gellir eu cyflwyno mewn unrhyw orsaf bleidleisio yn yr ardal gyfrif.

Mae ffurflenni cais am bleidlais drwy'r post ar gael o swyddfeydd cofrestru etholiadol, o www.fymhleidlaisi.co.uk neu drwy ffonio ein llinell gymorth ar 0800 3 280 280.

Sut mae rhywun yn pleidleisio drwy ddirprwy?

Mae pleidleisio drwy ddirprwy (penodi person i bleidleisio ar eich rhan) yn ffordd gyfleus o bleidleisio os nad yw person yn gallu cyrraedd yr orsaf bleidleisio. Gall fod yn ddefnyddiol os yw person yn mynd yn sâl ac yn methu cyrraedd yr orsaf bleidleisio ar ddiwrnod yr etholiad, neu os ydynt dramor yn ystod etholiad.

Wrth wneud cais am bleidlais drwy ddirprwy, efallai y bydd angen i bleidleiswyr gael rhywun i gefnogi eu cais a chadarnhau bod eu rheswm dros wneud cais am bleidlais drwy ddirprwy yn ddilys.

Os yw pleidleiswyr drwy ddirprwy yn newid eu meddwl ac yn dymuno pleidleisio yn bersonol, gallant ddal i wneud hynny, ar yr amod nad yw eu dirprwy wedi pleidleisio eisoes ar eu rhan (neu wedi gwneud cais i bleidleisio drwy'r post).

Y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais am bleidlais drwy ddirprwy ar gyfer yr etholiadau yw 5pm ar 14 Mai 2014.

Yn achos argyfyngau meddygol neu galwad i ffwrdd yn annisgwyl am resymau gwaith, gall pleidleiswyr wneud cais am ddirprwy brys hyd at **5pm ar y diwrnod pleidleisio**.

Beth fydd yn digwydd os yw rhywun yn ciwio mewn gorsaf bleidleisio am 10pm?

Am y tro cyntaf mewn unrhyw bleidlais yng Nghymru a Lloegr ac am y tro cyntaf mewn etholiad Senedd Ewrop yn yr Alban, bydd pleidleisiwr sydd yn yr orsaf bleidleisio neu mewn ciw yn eu gorsaf bleidleisio am 10pm yn cael yr hawl i bleidleisio.

A oes rheolau i'r cyfryngau ar amhleidioldeb?

Nid yw adroddiadau newyddion, ysgrifau nodwedd ac erthyglau golygyddol mewn print neu gyfryngau ar-lein yn destun i gyfraith etholiadol, ac nid yw'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol iddynt fod yn ddiduedd.

Dylai hysbysebu sy'n hyrwyddo ymgeisydd neu blaid y telir amdano (gan gynnwys hysbysebu am ddim a fyddai fel arfer angen talu amdano) gael ei gynnwys mewn treuliau etholiad ymgeisydd, ac mae'n destun i'r rheolau arferol ynghylch deunyddiau ymgyrchu.

Mae amhleidioldeb gwleidyddol yn y cyfryngau darlledu yn dod o dan y canllawiau golygyddol perthnasol i'r darlledwr penodol:

- Gellir gweld canllawiau golygyddol y BBC ar ddarlledu yn ystod etholiad yma.

- Mae darlledwyr masnachol yn destun i God Darlledu Ofcom, a welir yma

A all y cyfryngau fynd i mewn i orsafoedd pleidleisio?

Na. Ni chaniateir unrhyw ffilmio na chynnal cyfweliadau yn yr orsaf bleidleisio. Os yw'r cyfryngau'n dymuno ffilmio neu gynnal cyfweliadau y tu allan i'r man pleidleisio, rhaid iddynt sicrhau nad yw pleidleiswyr yn cael eu rhwystro neu eu haflonyddu ar eu ffordd i bleidleisio, ac nad yw'r fynedfa i'r man pleidleisio yn cael ei rhwystro.

Ymgyrch ymwybyddiaeth y cyhoedd y Comisiwn Etholiadol

Mae'r Comisiwn yn cynnal ymgyrch sy'n dechrau ar **Ddydd Mawrth 1 Ebrill** – i annog pobl i gofrestru i bleidleisio erbyn y dyddiad cau sef **Dydd Mawrth 6 Mai.** Yng Ngogledd Iwerddon, bydd yr ymgyrch yn dechrau ar **Ddydd Llun 14 Ebrill.** Bydd yr ymgyrch yn defnyddio cyfryngau rydym yn gwybod a gaiff eu defnyddio'n enwedig gan grwpiau sydd wedi eu tangofrestru, sy'n cynnwys pobl ifanc a symudwyr tai diweddar. Bydd ein hymgyrch ym Mhrydain Fawr yn rhedeg ar draws y teledu, teledu dal-i-fyny ar-lein, radio ac ar-lein.

Byddwn hefyd yn cynnal ymgyrch **'gofrestru'** a **'gwybodaeth pleidleiswyr'** yng Ngogledd Iwerddon, yn debyg i'r rhai rydym eisoes wedi eu cynnal mewn etholiadau blaenorol. Bydd yr ymgyrch gwybodaeth pleidleiswyr yn atgoffa pleidleiswyr o'r angen am ddeunydd adnabod ffotograffig yn yr orsaf bleidleisio, sut i bleidleisio a ble i ddod o hyd i ragor o wybodaeth am yr etholiadau. Bydd hyn yn rhedeg ar draws y teledu, cyfryngau print, radio, ar-lein ac ar bosteri yn yr awyr agored.

Yn ogystal â'r uchod, mae'r Comisiwn yn cynnal ymgyrch ar-lein yn bennaf gyda'r nod o annog alltudion o'r DU i gofrestru i bleidleisio, ac mae'n gweithio'n agos gyda'r Weinyddiaeth Amddiffyn i sicrhau bod aelodau'r lluoedd arfog wedi eu cofrestru.

Ceir lluniau o'n hymgyrch yn **Atodiad D**.

Cyfrif y pleidleisiau

Pryd a ble mae'r cyfrif yn cael ei gynnal ar gyfer etholiad Senedd Ewrop?

Gall pleidleisiau gael eu cyfrif ar unrhyw adeg ar ôl diwedd y pleidleisio, ond ni ellir datgan y canlyniadau tan 9pm ar Ddydd Sul 25 Mai 2014 (dyma'r amser cynharaf y gellir datgan canlyniadau'r etholiadau).

Mae'r cyfrifiadau'n cael eu cynnal yn lleol mewn canolfannau cyfrif dynodedig, a chânt eu goruchwylio gan y Swyddog Canlyniadau Lleol o bob ardal gyfrif. Mae'r cyfansymiau ar gyfer pob ardal gyfrif wedyn yn cael eu hadrodd i'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol a'u cyhoeddi'n lleol ar ôl iddynt gael eu cymeradwyo gan y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol.

Unwaith y bydd cyfansymiau pob un o'r ardaloedd cyfrif wedi dod i law, bydd y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol yn cyfrifo'r canlyniad, yn dyrannu seddau ac yn datgan y canlyniad ar gyfer y rhanbarth.

Er enghraifft, mae'r cyfrif yn Nottingham yn digwydd yng Nghanolfan Denis Nottingham. Yna byddai'r canlyniad o'r cyfrif hwn yn cael ei adrodd i'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol ar gyfer Dwyrain Canolbarth Lloegr yng Nghyngor Bwrdeistref Kettering, a fyddai'n datgan y canlyniad terfynol.

Ceir rhestr o'r holl Swyddogion Canlyniadau Rhanbarthol yn **Atodiad C**.

Gellir cael y lleoliadau cyfrif trwy gysylltu â swyddfa'r wasg yr awdurdod lleol yn eich ardal.

Pryd mae pleidleisiau drwy'r post yn cael eu hagor?

Bydd staff yr etholiad yn agor y pecynnau pleidleisio drwy'r post a ddychwelwyd hyd at ac ar y diwrnod pleidleisio er mwyn gwirio'r dynodwyr personol (dyddiad geni a llofnod y pleidleisiwr).

Yn y sesiynau agor hyn, rhaid i'r papurau pleidleisio aros wyneb i lawr ac ni fydd staff etholiadol yn cyfrif y pleidleisiau drwy'r post yn y sesiynau hyn.

Mae cyfrif pleidleisiau drwy'r post yn digwydd ar yr un pryd â'r pleidleisiau a fwriwyd yn y gorsafoedd pleidleisio.

Ble mae'r pleidleisiau yn cael eu cyfrif?

Mae'r pleidleisiau'n cael eu cyfrif mewn canolfan gyfrif, fel y dynodwyd gan y Swyddog Canlyniadau Lleol.

A ddefnyddir cyfrif electronig?

Na. Caiff y pleidleisiau eu cyfrif â llaw gan staff cyfrif penodedig yn yr etholiadau hyn.

A all y cyfryngau fynychu’r cyfrif?

Gall aelodau o'r cyfryngau fel arfer fynychu’r cyfrif yr amod eu bod wedi gwneud cais i'r Swyddog Canlyniadau Lleol (drwy'r swyddfa wasg yn yr awdurdod lleol perthnasol). Dylent gadw at unrhyw gyfarwyddiadau y mae'r Swyddog Canlyniadau Lleol yn eu rhoi. Nid oes rhaid i Swyddogion Canlyniadau Lleol ganiatáu i unrhyw aelod o'r wasg fynd i mewn i'r cyfrif (oni bai eu bod hefyd yn ymgeisydd, asiant, asiant cyfrif neu arsylwr achrededig).

A all y cyfryngau fynychu'r digwyddiad canlyniadau?

Gallent. Bydd y datganiad o’r canlyniadau i’r rhanbarth yn cael ei wneud gan y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol. Gweler **Atodiad C** am restr lawn o Swyddogion Canlyniadau Rhanbarthol. Dylech gysylltu â swyddfa'r wasg yr awdurdod lleol perthnasol i gael gwybod mwy am y trefniadau a lleoliadau'r digwyddiadau hyn.

Ble mae'r pleidleisiau yn cael eu cyfrif?

Mae pleidleisiau ym Mhrydain Fawr yn cael eu cyfrif mewn canolfannau cyfrif lleol, fel y dynodwyd gan y Swyddogion Canlyniadau Lleol perthnasol.

Mae pleidleisiau yng Ngogledd Iwerddon yn cael eu cyfrif yn y Kings Hall, Belfast.

Sut mae seddau yn cael eu dyrannu?

Ym Mhrydain Fawr, defnyddir system D’hondt o gynrychiolaeth gyfrannol i ddyrannu seddau. Golyga hyn:

- Bod y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol yn cyfrif cyfanswm pob un o'r pleidleisiau a fwriwyd dros bob plaid wleidyddol ac ymgeisydd unigol o fewn y rhanbarth etholiadol cyn cymhwyso fformiwla d'Hondt i wneud y dyraniad seddau.

- Dyrennir y sedd gyntaf i'r blaid neu ymgeisydd unigol sydd wedi cael y nifer uchaf o bleidleisiau a fwriwyd yn y rhanbarth etholiadol.

- Caiff pob sedd dilynol ei dyrannu i'r blaid neu ymgeisydd unigol sydd â'r nifer uchaf o bleidleisiau ar ôl y cyfrifiad canlynol, sy'n cael ei wneud ar ôl dyrannu pob sedd:

  Cyfanswm nifer y pleidleisiau a dderbyniwyd ÷ Nifer y seddau plaid wleidyddol/ymgeisydd unigol sydd eisoes wedi cael eu dyrannu yn y rhanbarth etholiadol +1

- Mae'r seddau y mae gan pob plaid wleidyddol yr hawl iddynt yn cael eu llenwi gan yr ymgeiswyr yn y drefn y mae eu henwau yn ymddangos ar restr y blaid.

Bydd unrhyw ymgeisydd unigol y dyrannwyd sedd iddo neu unrhyw blaid y dyrannwyd iddi gymaint o seddau iddi ag sydd o ymgeiswyr ar ei rhestr yn cael eu heithrio o gamau dilynol y cyfrifiad.

Yng Ngogledd Iwerddon, defnyddir y system bleidlais sengl drosglwyddadwy (STV).

Mae pleidleiswyr yn marcio 1, 2 a 3 yn erbyn ymgeiswyr yn nhrefn eu dewis. Caiff yr ymgeiswyr gyda'r nifer lleiaf o bleidleisiau eu dileu ac ail ddidolir y pleidleisiau.

Ailadroddir hyn tan mai dim ond y nifer gofynnol o ymgeiswyr sydd ar ôl.

Ar ôl yr etholiad

A all rhywun herio canlyniad etholiad?

Gallant. Gellir herio canlyniad etholiad Senedd Ewrop drwy ddeiseb etholiadol.

Dim ond rhai pobl all gyflwyno deiseb etholiad, a dim ond o dan amgylchiadau penodol.
Gall deiseb etholiadol gael ei chyflwyno gan y canlynol:

- rhywun sy'n honni ei fod wedi bod yn ymgeisydd yn yr etholiad
- rhywun sy'n honni fod ganddo hawl i gael ei ethol neu ei ddychwelyd yn yr etholiad
- etholwr a oedd â hawl i bleidleisio yn yr etholiad

Y seiliau a ganiateir ar gyfer deiseb yw:

- nad yw'r ymgeisydd llwyddiannus wedi ei ethol yn briodol
- nad oedd y canlyniadau wedi'u datgan yn briodol
- bod yr etholiad yn annilys oherwydd yr arferion llwgr neu anghyfreithlon canlynol.

Gweler ein canllawiau ar gyfer ymgeiswyr ac asiantiaid (tudalen 5) am ragor o fanylion am ddeisebau etholiad.

Rhaid i ddeisebwyr gyflwyno'r ddeiseb o fewn 21 diwrnod calendr i ddatgan y canlyniad. Rhaid i ddeisebwyr lofnodi'r ddeiseb a'i dychwelyd i'r Swyddfa Deisebau Etholiadau.

Etholiadau lleol ac etholiadau maerol Lloegr

Gweler y dyddiadau allweddol ar gyfer yr etholiadau lleol yn Lloegr yn ein hamserlen etholiadau.

Pryd fydd y cyfrif yn dechrau?

Gall hyn amrywio mewn gwahanol awdurdodau lleol a gall ddigwydd ar ôl i'r pleidleisio orffen, neu ar y diwrnod canlynol. Cysylltwch â swyddfa'r wasg eich awdurdod lleol i gadarnhau amseroedd.

Ble fydd y cyfrif a datgan y canlyniadau yn digwydd?

Bydd hyn yn digwydd mewn lleoliad a bennir gan y Swyddog Canlyniadau. Cysylltwch â swyddfa'r wasg eich awdurdod lleol i gadarnhau ble y bydd hyn.

Pryd fydd y canlyniadau'n cael eu cyhoeddi?

Nid yw'n bosibl dweud yn union pryd y caiff y canlyniad ei gyhoeddi gan fod hyn yn dibynnu ar nifer o ffactorau, gan gynnwys amseriad y cyfrif ac unrhyw ailgyfrif.

Beth yw'r cyfnod rheoledig ar gyfer yr etholiadau lleol a maerol?

Mae hwn yn dechrau ar y dyddiad pan fydd unigolyn yn dod yn ymgeisydd swyddogol ac yn gorffen ar ddiwedd y bleidlais.

Beth yw'r terfyn gwariant ymgyrch ar gyfer ymgeiswyr yn yr etholiadau lleol a maerol?

I ymgeiswyr maerol, y terfyn gwariant ar gyfer y cyfnod rheoledig yw £2,362, ynghyd â 5.9p fesul etholwr cofrestredig yn ardal yr awdurdod lleol ble mae'r ymgeisydd yn sefyll.

I ymgeiswyr llywodraeth leol, y terfyn gwariant yw £600, ynghyd â 5c fesul etholwr llywodraeth leol yn y ward ble y mae'r ymgeisydd yn sefyll.

I bwy mae ymgeiswyr etholiad lleol a maerol yn adrodd am eu gwariant a phryd?

Rhaid adrodd ar wariant yr ymgeiswyr i'r Swyddog Canlyniadau o fewn 35 diwrnod ar ôl datgan canlyniad yr etholiad. Mae'r Comisiwn yn darparu canllawiau a ffurflenni ar gyfer ymgeiswyr a'u hasiantiaid ynglŷn â'r hyn y mae'n rhaid iddynt adrodd amdanynt ar ôl yr etholiad.

A oes rhaid i ymgeiswyr adrodd ynghylch y rhoddion y maent yn eu derbyn?

Oes. Rhaid iddynt gynnwys manylion yr holl roddion unigol o dros £50 a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod rheoledig. Rhaid iddynt hefyd ddarparu cyfanswm o'r holl roddion a dderbyniwyd ganddynt (gan gynnwys y rhai hyd at £50). Maent yn gwneud hyn fel rhan o'r ffurflenni gwariant sydd raid iddynt eu darparu i'r Swyddog Canlyniadau.

Gweler ein canllawiau ar gyfer ymgeiswyr ac asiantiaid mewn etholiadau Maerol neu etholiadau llywodraeth leol am ragor o wybodaeth ar wariant a rhoddion.

A fyddaf yn gallu gweld y ffurflenni gwariant ar ôl yr etholiad?

Gallwch. Bydd ffurflenni gwariant ymgeiswyr ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd yn swyddfeydd y cyngor cyn gynted â phosibl ar ôl iddynt gael eu derbyn. Cysylltwch â'ch awdurdod lleol am fwy o fanylion.

Am fwy o wybodaeth am yr etholiadau lleol a maerol, cysylltwch â swyddfa'r wasg ar 0207 271 0704.

Atodiad A

Rhestr o etholiadau llywodraeth leol yn Lloegr ar 22 Mai 2014

Cyngor	Cylch
Cyngor Dosbarth Adur	Hanner
Cyngor Bwrdeistref Amber Valley	Trydydd
Cyngor Bwrdeistref Metropolitan Barnsley	Trydydd
Cyngor Bwrdeistref Basildon	Trydydd
Cyngor Bwrdeistref Basingstoke a Deane	Trydydd
Cyngor Dosbarth Bassetlaw	Trydydd
Cyngor Dinas Birmingham	Trydydd
Cyngor Bwrdeistref Blackburn gyda Darwen	Trydydd
Cyngor Bwrdeistref Metropolitan Bolton	Trydydd
Cyngor Bradford	Trydydd
Cyngor Bwrdeistref Brentwood	Trydydd
Cyngor Dinas Bryste	Trydydd
Cyngor Bwrdeistref Broxbourne	Trydydd
Cyngor Bwrdeistref Burnley	Trydydd
Cyngor Bwrdeistref Metropolitan Bury	Trydydd
Cyngor Bwrdeistref Metropolitan Calderdale	Trydydd
Cyngor Dinas Caergrawnt	Trydydd
Cyngor Dosbarth Cannock Chase	Trydydd
Cyngor Dinas Caerliwelydd	Trydydd
Cyngor Bwrdeistref Castle Point	Trydydd
Cyngor Bwrdeistref Cheltenham	Hanner
Cyngor Dosbarth Cherwell	Trydydd
Cyngor Bwrdeistref Chorley	Trydydd
Dinas Westminster	Cyfan
Cyngor Bwrdeistref Colchester	Trydydd
Cyngor Dinas Coventry	Trydydd
Cyngor Dosbarth Craven	Trydydd
Cyngor Bwrdeistref Crawley	Trydydd
Cyngor Dosbarth Daventry	Trydydd
Cyngor Dinas Derby	Trydydd
Cyngor Bwrdeistref Metropolitan Doncaster	Trydydd
Cyngor Bwrdeistref Metropolitan Dudley	Trydydd
Cyngor Bwrdeistref Eastleigh	Trydydd
Cyngor Bwrdeistref Elmbridge	Trydydd
Cyngor Dosbarth Epping Forest	Trydydd
Cyngor Dinas Caerwysg	Trydydd
Cyngor Bwrdeistref Fareham	Hanner
Cyngor Bwrdeistref Metropolitan Gateshead	Trydydd
Cyngor Dinas Caerloyw	Trydydd
Cyngor Bwrdeistref Gosport	Hanner
Cyngor Bwrdeistref Great Yarmouth	Trydydd
Cyngor Bwrdeistref Halton	Trydydd

Cyngor Dosbarth Harlow	Trydydd
Cyngor Bwrdeistref Harrogate	Trydydd
Cyngor Dosbarth Hart	Trydydd
Cyngor Bwrdeistref Hartlepool	Trydydd
Cyngor Bwrdeistref Hastings	Hanner
Cyngor Bwrdeistref Havant	Trydydd
Cyngor Bwrdeistref Hertsmere	Trydydd
Cyngor Dosbarth Swydd Huntingdon	Trydydd
Cyngor Bwrdeistref Hyndburn	Trydydd
Cyngor Bwrdeistref Ipswich	Trydydd
Cyngor Dinas Kingston-upon-Hull	Cyfan
Cyngor Metropolitan Kirklees	Trydydd
Cyngor Bwrdeistref Metropolitan Knowsley	Trydydd
Cyngor Dinas Leeds	Trydydd
Cyngor Dinas Lincoln	Trydydd
Cyngor Dinas Lerpwl	Trydydd
Bwrdeistref Llundain Barking a Dagenham	Cyfan
Bwrdeistref Llundain Barnet	Cyfan
Bwrdeistref Llundain Bexley	Cyfan
Bwrdeistref Llundain Brent	Cyfan
Bwrdeistref Llundain Bromley	Cyfan
Bwrdeistref Llundain Camden	Cyfan
Bwrdeistref Llundain Croydon	Cyfan
Bwrdeistref Llundain Ealing	Cyfan
Bwrdeistref Llundain Enfield	Cyfan
Bwrdeistref Llundain Hackney	Cyfan
Bwrdeistref Llundain Hammersmith a Fulham	Cyfan
Bwrdeistref Llundain Haringey	Cyfan
Bwrdeistref Llundain Harrow	Cyfan
Bwrdeistref Llundain Havering	Cyfan
Bwrdeistref Llundain Hillingdon	Cyfan
Bwrdeistref Llundain Hounslow	Cyfan
Bwrdeistref Llundain Islington	Cyfan
Bwrdeistref Llundain Lambeth	Cyfan
Bwrdeistref Llundain Lewisham	Cyfan
Bwrdeistref Llundain Merton	Cyfan
Bwrdeistref Llundain Newham	Cyfan
Bwrdeistref Llundain Redbridge	Cyfan
Bwrdeistref Llundain Richmond Upon Thames	Cyfan
Bwrdeistref Llundain Southwark	Cyfan
Bwrdeistref Llundain Sutton	Cyfan
Bwrdeistref Llundain Tower Hamlets	Cyfan
Bwrdeistref Llundain Waltham Forest	Cyfan
Bwrdeistref Llundain Wandsworth	Cyfan
Cyngor Bwrdeistref Maidstone	Trydydd
Cyngor Dinas Manceinion	Trydydd
Cyngor Milton Keynes	Trydydd
Cyngor Dosbarth Mole Valley	Trydydd
Cyngor Dinas Newcastle	Trydydd

Cyngor Bwrdeistref Newcastle under Lyme	Trydydd
Cyngor Gogledd Ddwyrain Swydd Lincoln	Trydydd
Cyngor Dosbarth Gogledd Swydd Hertford	Trydydd
Cyngor Gogledd Tyneside	Trydydd
Cyngor Dinas Norwich	Trydydd
Cyngor Bwrdeistref Nuneaton a Bedworth	Hanner
Cyngor Bwrdeistref Metropolitan Oldham	Trydydd
Cyngor Dinas Rhydychen	Hanner
Cyngor Bwrdeistref Pendle	Trydydd
Cyngor Dinas Peterborough	Trydydd
Cyngor Dinas Plymouth	Trydydd
Cyngor Dinas Portsmouth	Trydydd
Cyngor Dinas Preston	Trydydd
Cyngor Dosbarth Purbeck	Trydydd
Cyngor Bwrdeistref Reading	Trydydd
Cyngor Bwrdeistref Redditch	Trydydd
Cyngor Bwrdeistref Reigate a Banstead	Trydydd
Cyngor Bwrdeistref Metropolitan Rochdale	Trydydd
Cyngor Dosbarth Rochford	Trydydd
Cyngor Bwrdeistref Rossendale	Trydydd
Cyngor Bwrdeistref Metropolitan Rotherham	Trydydd
Bwrdeistref Frenhinol Greenwich	Cyfan
Bwrdeistref Frenhinol Kensington a Chelsea	Cyfan
Bwrdeistref Frenhinol Kingston Upon Thames	Cyfan
Cyngor Bwrdeistref Rugby	Trydydd
Cyngor Bwrdeistref Runnymede	Trydydd
Cyngor Bwrdeistref Rushmoor	Trydydd
Cyngor Dinas Salford	Trydydd
Cyngor Bwrdeistref Metropolitan Sandwell	Trydydd
Cyngor Bwrdeistref Metropolitan Sefton	Trydydd
Cyngor Dinas Sheffield	Trydydd
Cyngor Bwrdeistref Slough	Trydydd
Cyngor Bwrdeistref Metropolitan Solihull	Trydydd
Cyngor Dosbarth De Swydd Gaergrawnt	Trydydd
Cyngor Dosbarth South Lakeland	Trydydd
Cyngor Bwrdeistref Metropolitan South Tyneside	Trydydd
Cyngor Dinas Southampton	Trydydd
Cyngor Bwrdeistref Southend-on-Sea	Trydydd
Cyngor Dinas a Dosbarth St Albans	Trydydd
Cyngor Bwrdeistref Metropolitan St Helens	Trydydd
Cyngor Bwrdeistref Stevenage	Trydydd
Cyngor Bwrdeistref Metropolitan Stockport	Trydydd
Cyngor Dosbarth Stratford on Avon	Trydydd
Cyngor Dosbarth Stroud	Trydydd
Cyngor Dinas Sunderland	Trydydd
Cyngor Bwrdeistref Swindon	Trydydd
Cyngor Bwrdeistref Metropolitan Tameside	Trydydd
Cyngor Bwrdeistref Tamworth	Trydydd
Cyngor Dosbarth Tandridge	Trydydd

Cyngor Dosbarth Three Rivers	Trydydd
Cyngor Thurrock	Trydydd
Cyngor Bwrdeistref Metropolitan Trafford	Trydydd
Cyngor Bwrdeistref Tunbridge Wells	Trydydd
Cyngor Dosbarth Metropolitan Wakefield	Trydydd
Cyngor Bwrdeistref Metropolitan Walsall	Trydydd
Cyngor Bwrdeistref Warrington	Trydydd
Cyngor Bwrdeistref Watford	Trydydd
Cyngor Dosbarth Welwyn Hatfield	Trydydd
Cyngor Bwrdeistref Gorllewin Swydd Gaerhirfryn	Trydydd
Cyngor Dosbarth Gorllewin Swydd Rydychen	Trydydd
Cyngor Bwrdeistref Weymouth & Portland	Trydydd
Cyngor Bwrdeistref Metropolitan Wigan	Trydydd
Cyngor Dinas Caer-wynt	Trydydd
Bwrdeistref Metropolitan Cilgwri	Trydydd
Cyngor Bwrdeistref Woking	Trydydd
Cyngor Bwrdeistref Wokingham	Trydydd
Cyngor Dinas Wolverhampton	Trydydd
Cyngor Dinas Caerwrangon	Trydydd
Cyngor Bwrdeistref Worthing	Trydydd
Cyngor Dosbarth Wyre Forest	Trydydd

Etholiadau maerol

Hackney
Lewisham
Newham
Tower Hamlets
Watford

Atodiad B

Sampl o bapur pleidleisio etholiad Senedd Ewrop

Ethol Aelodau Senedd Ewrop ar gyfer Rhanbarth Etholiadol Cymru

Election of Members of the European Parliament for the Electoral Region of Wales

Pleidleisiwch **unwaith yn unig** trwy roi croes ☒ yn y blwch nesaf at eich dewis

Vote **only once** by putting a cross ☒ in the box next to your choice

---

Plaid Bloggs

1. Ali Barber
2. Dusty Boots
3. Blossom Tree
4. Roger James

❄ ☐

Plaid Cromwell

1. Terry Teller
2. Jane Doe
3. Earl Grey
4. Anita Patel

❖ ☐

Plaid Eos

1. Charles Bucket
2. Kris Kringle
3. Basil Bush
4. Sunny Day

⌘ ☐

Plaid Pelican

1. Michael Angelos
2. Suki Moon
3. Victoria Line
4. Windy Miller

△ ☐

Plaid Tudur

1. Leif Fall
2. William Shakes
3. Jemima Duck
4. Lincoln President

✸ ☐

Baker, Cupcake

Annibynnol ☐

Atodiad C

Rhestr o Swyddogion Canlyniadau Rhanbarthol yn y DU

Rhanbarth etholiadol	Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol
Dwyrain Canolbarth Lloegr	David Cook, Cyngor Bwrdeistref Kettering
Dwyreiniol	Steve Packham, Cyngor Dinas Chelmsford
Llundain	Barry Quirk, Bwrdeistref Llundain Lewisham
Gogledd Ddwyrain	Dave Smith, Cyngor Dinas Sunderland
Gogledd Orllewin	Syr Howard Bernstein, Cyngor Dinas Manceinion
De-ddwyrain	Mark Heath, Cyngor Dinas Southampton
De-orllewin	Paul Morris, Cyngor Bwrdeistref Poole
Gorllewin Canolbarth Lloegr	Mark Rogers, Cyngor Dinas Birmingham
Swydd Efrog a'r Humber	Tom Riordan, Cyngor Dinas Leeds
Gogledd Iwerddon	Graham Shields, Prif Swyddog Etholiadol
Yr Alban	Mary Pitcaithly, Cyngor Falkirk
Cymru	Bryn Parry-Jones, Cyngor Sir Penfro

Atodiad D

Ymgyrch ymwybyddiaeth y cyhoedd

Cyfieithiadau a fformatau eraill

I gael gwybodaeth ynghylch cael y cyhoeddiad hwn mewn iaith arall, neu ar ffurf fersiwn print bras neu Braille, cysylltwch â'r Comisiwn Etholiadol:
Ffôn: 020 7271 0500
E-bost: publications@electoralcommission.org.uk